

Minutes



Cyd-Bwyllgor Amlogiad Gwell Gwent

Date: Dydd Mercher, 26 Mai 2021

Time: 10.00 am

Present: Councillors J Taylor (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, S Evans, Pratt, J Simmonds, J Hughes and Moore

Steve Tom, Gareth Price (Head of Law & Regulation), Meirion Rushworth (Head of Finance), Joanne Hazlewood, Paul Dundon, Karen Sansom and Joanne Gossage (Green Services Manager)

Apologies: Councillors K Williams and Meredith

1 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb

Y Cynghorwyr C Meredith a K Williams

2 Datganiadau o ddiddordeb

Dim

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2021 yn gofnod gwir a chywir.

4 Adroddiad Cyfrifon Drafft 2020/21

Gofynnwyd i'r Aelodau dderbyn a chymeradwyo'r sefyllfa cyfrifon drafft, a nodi bod dosbarthiad o £950,000 wedi'i wneud i Awdurdodau Cyfansoddol, fel y cytunwyd arno, yn unol â disgwyliadau'r gyllideb.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cyfrifon drafft/datganiad blynyddol, cyn eu harchwilio, a chytunodd i ddefnyddio'r £63,028 a oedd yn weddill i gynyddu balansau i £1,437,303, a fydd yn galluogi'r rhaglen barhaus o waith hanfodol i barhau.

5 Rheoli Cyfleusterau

Cyflwynodd cynrychiolydd Norse ei adroddiad drwy e-bost. Nid oedd unrhyw beth mawr i'w adrodd o safbwynt cynnal a chadw adeiladau, dim ond y ceisiadau cynnal a chadw arferol e.e.; atgyweirio ffensys a thoiledau.

Fel y nodwyd yn y cyfarfod blaenorol mae Paul Dundon a minnau wedi bod yn edrych ar ffyrdd o wella'r cyfleusterau presennol. Rydym wedi ymchwilio i wella'r thoiledau a'r man aros yn ogystal ag ailwampio ystafell y Llyfr Cofio. Rydym bellach wedi creu lluniadau drafft ac rydym yn gorffen rhoi cynllun cost at ei gilydd ar gyfer y cynnig.

Roedd cynrychiolydd Norse wedi bwriadu rhannu'r lluniadau yn y cyfarfod yn wreiddiol, fodd bynnag, ar ôl trafod hyn ymhellach gyda P Dundon, daethom i'r cyd-gytundeb, er bod llun yn werth mil o eiriau, nad ydym yn credu y byddai'n cynrychioli anawsterau'r cynllun presennol na graddfa'r gwaith sydd ei angen i'w wneud yn brofiad cwbl well i ddefnyddwyr yr amlogfa.

Felly, hoffem gynnig bod y Pwyllgor yn chwilio am gwpl o wirfoddolwyr i fynd gyda Paul a minnau am dro o amgylch yr adeilad gyda'r lluniadau newydd a thystio'n uniongyrchol yr hyn yr ydym yn ei gynnig.

Gwirfoddolodd y Cynghorwyr John Taylor, Cadeirydd, Julian Simmonds, Jane Pratt a Roger Jeavons.

Paul a Karl i drefnu'r ymweliad gyda'r pedwar Cynghorydd.

Bydd hyn yn ein galluogi i gwblhau'r lluniadau a pharatoi cynllun cost yn barod i'w cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor i ofyn am gymeradwyaeth.

6 Adroddiad y Trefnydd Angladdau

Gofynnodd S Tom am gynyddu amser gwasanaethau gan ei fod wedi derbyn llythyr gan deulu a gafodd amlogiad teuluol yn ddiweddar ac roedd ganddynt lai nag 20 munud oherwydd bod yr angladd blaenorol wedi'i oedi ychydig. Teimlai'r Gweinidog fod angen hepgor rhywfaint o'u gwasanaeth er mwyn cadw at amser. Mae'r cynnydd mewn amser gwasanaethau wedi'i gynnwys yn adroddiad y Rheolwr isod.

7 Adroddiad y Rheolwr

Roedd nifer yr amlogiadau wedi cynyddu ym mis Ionawr a mis Chwefror o gymharu â'r un cyfnod y llynedd fodd bynnag, ym mis Ebrill roedd y nifer ohonynt wedi gostwng i 111 o gymharu â'r llynedd.

Yn ystod y 28 diwrnod diwethaf hyd yma mae tua 14,000 o bobl wedi edrych ar dudalennau gwe'r amlogfa.

Materion Cynnal a Chadw

Nid yw un o'r ffrydiau lleihau allyriadau yn gweithio ar hyn o bryd oherwydd gollyngiad dŵr mewnol difrifol yn y cyfnewidydd gwres. Yn dilyn cyngor mae'r cyfnewidydd gwres yn cael ei ddisodli yn ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn dechrau ar 26 Mehefin. Yn anffodus, oherwydd yr angen am offer codi trwm ar y safle, a'r lefelau sŵn a ragwelir yn ystod y gwaith, ni fydd unrhyw wasanaethau ar gael ar 28 na 29 Mehefin.

Gosod Offer Clyweledol

Mae'r gwaith o osod offer i ganiatáu teyrngedau gweledol yn ystod gwasanaethau wedi'i drefnu. Bydd hyn yn cael ei gyfuno â gwaith i uwchraddio'r system sain yn llawn, gan roi gwell profiad i deuluoedd yn y capel a gwella'r lefelau sain i unrhyw bobl y tu allan i'r capel. Bydd ail feicroffon hefyd yn cael ei gyflwyno fel na fydd angen i bobl sy'n rhoi areithiau angladdol rannu darllenfa gydag offeiriaid. Nid yw'r dyddiadau ar gyfer gosod wedi'u cwblhau eto, oherwydd materion cyflenwi gyda rhywfaint o'r offer arbenigol sydd ei angen.

Amseroedd Gwasanaethau

Oherwydd problemau gyda galw, ni fu'n bosibl hyd yn hyn gynnig amseroedd gwasanaethau yn hwy nag 20 munud heb greu ôl-groniad o wasanaethau, er anfantais i deuluoedd. Fodd bynnag, gan fod nifer yr amlogfeydd yn yr ardal wedi cynyddu a bod y galw wedi gostwng, mae PD yn cynnig gwasanaeth 45 munud o hyd o fewn pob slot awr, fodd bynnag, mae angen rhywfaint o hyblygrwydd i newid amseroedd yn ymarferol.

Dyweddodd J Pratt iddi fynd i amlosgiad yn Hampshire yn ddiweddar ac roedd yr amlogfa yn fodern iawn gyda'r gwasanaeth yn cael ei ffrydio'n fyw gyda cherddoriaeth.

Pan agorodd yr amlogfa gyntaf, y drefn arferol oedd bod gwasanaeth angladd yn digwydd mewn eglwys neu gapel, ac yna defnyddiwyd yr amlogfa fel dim ond lle ar gyfer traddodi'r corff. Mae mwy o seciwlaereiddio mewn cymdeithas wedi newid yr arfer hwn ac mae llawer mwy o wasanaethau angladd yn cael eu cynnal yn yr amlogfa yn unig. Mae cynnwys gwasanaethau angladd hefyd wedi dod yn fwy amrywiol a chymhleth, ac nid yw ugain munud yn ddigonol.

The meeting terminated at Time Not Specified